The ELG brings together representatives from Cadw, Gwynedd County Council, Natural Resources Wales (NRW), Gwynedd Archaeological Trust (GAT), and the North and Mid-Wales Trunk Road Agent (NMWTRA). It is intended that the ELG would continue to meet regularly throughout the pre-construction, construction and aftercare period.

Scheme details have been presented to the Design Commission for Wales and their comments have been considered in the Preliminary Design.

Landowners and people whose properties or private accesses would be directly affected by the Scheme have been consulted.

The wider public have been informed by two Public Information Exhibitions held in March and June 2015.

Consultations have been held with Gwynedd Council since early 2015 to ensure they have knowledge of the Scheme and contributed to the development of the design.

Comments received during these consultations have been considered as the design and draft Orders have been developed.



*Previous Public Exhibitions*



## Asesiadau Amgylcheddol Arbenigol

Cynhaliwyd asesiadau amgylcheddol, sy'n nodi ac yn asesu effeithiau posibl y Cynllun a mesurau i gael eu rhoi ar waith i i sicrhau bod yr effeithiau hyn cyn lleied â phosibl ac i ychwanegu gwerth lle'n briodol.

Mae'r asesiad o'r effaith amgylcheddol a adroddir yn y Datganiad Amgylcheddol yn trafod amrywiaeth o bynciau amgylcheddol. Cyflwynir crynodeb o'r asesiadau hyn fel a ganlyn:

### *Ansawdd Aer*

Mae ansawdd aer yn ardal y Cynllun yn dda iawn yn gyffredinol ar hyn o bryd, er i achosion pan aethpwyd y tu hwnt i lefelau'r amcan nitrogen deuocsid gael eu monitro ar yr A487 bresennol trwy ganol Caernarfon. Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer yn ardal yr astudiaeth.

Nid oes poblogaeth fawr yn yr ardal o amgylch y Cynllun ac felly prin yw'r posibilrwydd o niwsans llwch wrth adeiladu. Fodd bynnag, oherwydd maint y Cynllun a hyd y gweithgareddau, ceir potensial canolig o effeithiau llwch yn y nifer gyfyngedig o eiddo sy'n agos at y gwaith.

Cynigiwyd mesurau arfer da ar draws holl ardaloedd y safle, gyda mesurau a monitro (gweledol) estynedig o lwch, yng nghyffiniau eiddo preswyl, pwyntiau mynediad i'r safle a chroesfannau'r gwaith.

Mae effaith gyffredinol y Cynllun ar ansawdd yr aer o ran iechyd pobl yn fuddiol. Caiff lefelau llygredd ar hyd yr A487 trwy Bontnewydd a Chaernarfon eu lleihau'n sylweddol yn sgil y Cynllun. Mewn mannau eraill, mae llygredd yn cynyddu yng nghyffiniau'r Cynllun, ond mae'r crynodiadau yn parhau i fod o fewn amcanion ansawdd aer y DU.

Ceir tri safle cadwraeth natur dynodedig yn ardal yr astudiaeth. Ar y safleoedd dynodedig, mae effeithiau ochr y ffordd yn amrywio o andwyol i ACA/SoDdGA Glynllifon, niwtral i ACA/SoDdGA Afon Gwyrfa i a Llyn Cwellyn a buddiol i Bant Cae Haidd.

## Environmental Specialist Assessments

Specialist environmental assessments have been undertaken, which identify and assess the potential impacts of the Scheme and measures to be put in place to minimise these impacts and to add value where appropriate.

The environmental impact assessment reported within the Environmental Statement covers a range of environmental topics. A summary of these assessments is set out as follows:

### *Air Quality*

Current air quality in the vicinity of the Scheme is generally very good, although exceedences of the nitrogen dioxide objective levels were monitored on the existing A487 through the centre of Caernarfon. There are no Air Quality Management Areas in the study area.

The area around the Scheme is not heavily populated, therefore there is limited potential for dust nuisance during construction. However, due to the scale of the Scheme and duration of activities there is a medium potential for dust impacts at the limited numbers of properties close to the works.

Good practice measures have been proposed across all areas of the site, with enhanced measures and monitoring (visual) of dust, in the vicinity of residential properties, site access points and plant crossing points.

The overall impact of the Scheme on air quality in relation to human health is beneficial. Pollution levels alongside the A487 through Bontnewydd and Caernarfon are significantly reduced with the Scheme. Elsewhere pollution levels increase in the vicinity of the Scheme, but concentrations remain well within the UK's air quality objectives.

Three designated nature conservation sites lie within the study area. At the designated sites, roadside impacts range from adverse over Glynllifon SAC/SSSI, neutral over Afon Gwyrfa i a Llyn Cwellyn SAC/SSSI and beneficial over Pant Cae Haidd.

## **Treftadaeth Ddiwylliannol**

Mae'r Cynllun mewn ardal o ddiddordeb sylweddol o ran treftadaeth ddiwylliannol. Mae'n cynnwys cefnfro Segontium Rufeinig ac anheddiad canoloesol ac ôl-ganoloesol Caernarfon. Ceir asedau treftadaeth o oes hwyr cynhanes i'r cyfnod modern; mae henebion sy'n dal i sefyll yn cyfuno ag archaeoleg wedi'i gladdu.

O safbwynt ffisegol, byddai'r Cynllun yn effeithio ar ddarn byr o ffordd Rufeinig. Byddai angen adleoli carreg filltir restredig Gradd II i'w ddiogelu rhag difrod. Hefyd, mae arolwg geoffisegol o goridor y llwybr yn datgelu sawl anomaledd, y gallai rhai ohonynt ymwneud ag archaeoleg wedi'i gladdu. Cynhaliwyd gwerthusiad i bennu nodweddion rhai o'r anomaleddau hyn, ac felly i egluro lefel yr effaith. Yn ystod y cam adeiladu, byddai gwaith lliniaru archaeolegol ar gyfer effeithiau ffisegol y Cynllun yn cael ei wneud trwy raglen fesul cam o ymchwilio a chofnodi.

Disgwylir effeithiau anuniongyrchol ar leoliad Heneb Restredig Caerlan Tibot (clostir a ddiogelir) ac ar Adeiladau Rhestredig Gradd II ym Mryn Eglwys, Bryn Eden a Glanrafon Fawr. Pan yn bosibl, byddai'r cynllun yn cynnwys mesurau i leihau'r effeithiau hyn.

## **Cultural Heritage**

The Scheme lies within an area of significant cultural heritage interest. It comprises the hinterland of Roman Segontium and the medieval and post-medieval settlement of Caernarfon. Heritage assets span late prehistory to the modern period; upstanding monuments combine with buried archaeology.

In physical terms, the Scheme would impact on a short stretch of Roman road. A Grade II-listed milestone would require relocation to protect it from damage. In addition, a geophysical survey of the route corridor reveals numerous anomalies, some of which could relate to buried archaeology. An evaluation has been undertaken to determine the character of some of these anomalies, and thus clarified the level of impact. At construction stage, archaeological mitigation for the physical impacts of the Scheme would be implemented through a staged programme of investigation and recording.

Indirect impacts are expected on the setting of the Caerlan Tibot Scheduled Ancient Monument (a defended enclosure) and on Grade II Listed Buildings at Bryn Eglwys, Bryn Eden and Glanrafon Fawr. Where possible the Scheme design would incorporate measures to lessen these impacts.

## Tirwedd

Byddai'r Cynllun mewn gwastatir arfordirol agored ac felly i'w weld, mewn theori, ar draws ardal fawr, er, oherwydd maint a chymhlethdod y dirwedd, byddai fwy neu lai'n anweladwy o bellteroedd hwy.

Byddai cyflwyno argloddiau a thrychfeydd mawr yn groes i'r topograffi pennaf, a'r lleoliad sy'n wledig ar y cyfan, yn arwain at rai effeithiau sylweddol hirdymor ar gymeriad y dirwedd.

Byddai effeithiau andwyol hefyd ar lawer o olygfeydd yn ardal yr astudiaeth, er y byddai'r rhai sy'n bellach, fel o leoliadau ucheldir ac o Ynys Môn, yn cael eu heffeithio llai. Byddai'r effaith ar olygfeydd yn fwy yn agosach a lle y byddai strwythurau wedi'u peiriannu yn cael eu gweld.

Yn yr un modd, yr eiddo a fyddai'n cael ei effeithio'n fwyaf sylweddol fyddai'r eiddo agosaf at y Cynllun neu lle mae'n ddyrchafedig i gynnig golygfeydd mwy agored i'r Cynllun.

Byddai mesurau lliniaru'n cael eu darparu ar ffurf coetir llydanddail eang a phlannu cloddiau, mewn cyfuniad â chadw a diogelu llystyfiant presennol ble bynnag y bo hynny'n bosibl.

Er bod yr asesiad yn dangos y byddai'r mesurau hyn yn llai effeithiol ar gyfer strwythurau gweledol fel traphontydd Afon Gwyrfaï a Seiont, byddent yn lleihau effeithiau gweledol a thirwedd y Cynllun yn gyffredinol dros amser.

## Landscape

The Scheme would lie within an open coastal plain and would therefore be theoretically visible across a large area, although due to the scale and complexity of the landscape it would be practically imperceptible from longer distances.

The introduction of substantial embankments and cuttings contrary to the prevailing topography, and the largely rural setting, would result in some long term significant impacts on landscape character.

There would also be adverse impacts on many views within the study area, although those more distant ones, such as from upland locations and from Anglesey, would be less affected. The impact on views would be greater at closer proximity and where engineered structures would be seen.

Similarly the most significantly affected properties would be those closest to the Scheme or where they are elevated to provide more open views to the Scheme.




Mitigation measures would be provided in the form of extensive broadleaf woodland and hedgerow planting, in combination with the retention and protection of existing vegetation wherever possible.

Although the assessment illustrates that these measures would be less effective for visible structures such as the Afon Gwyrfaï and Seiont viaducts, they would in general reduce the adverse visual and landscape impacts of the Scheme over time.



*Golwg ar Chwarel Caernarfon o'r awyr*

*Aerial view at Caernarfon Quarry*



## Cadwraeth Natur

Ni ddisgwylir i'r Cynllun effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw safleoedd dynodedig, ar sail barhaol. Fodd bynnag, mae effaith bosibl ar ardal gadwraeth arbennig Glynllifon, ac ardal gadwraeth arbennig Mwyngloddiau Coedwig Gwydir a Choedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion. Byddai effaith uniongyrchol ar nifer o gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir. Ystyrir bod y rhan fwyaf o'r rhain o werth canolig neu is ac, o ganlyniad, mae mwyafrif yr effeithiau a ragwelir yn fân neu'n gymedrol, yn ystod y gwaith adeiladu a gweithrediad y Cynllun. Mae cynefinoedd a fydd yn cael eu heffeithio yn cynnwys: coetir a phrysg llydanddail, cloddiau a nentydd. Mae'r rhywogaethau a warchodir a fydd yn cael eu heffeithio yn cynnwys: ymlusgiaid, adar sy'n nythu, ystlumod, pathewod a dyfrgwn.

Byddai mesurau lliniaru yn sicrhau bod effeithiau gweddilliol ar fwyafrif y derbynyddion hyn yn cael eu hosgoi yn y byrdymor a'r tymor canol, a bod effeithiau gweddilliol ar bob derbynydd ecolegol yn cael eu hosgoi yn yr hirdymor.

Byddai cydymffurfriad â thrwyddedau rhywogaethau a warchodir a datganiadau dull yn sicrhau bod effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd a warchodir yn cael eu hosgoi neu eu lleihau yn ystod y cam adeiladu.

Byddai camau lliniaru hirdymor a ddarperir gan y Cynllun yn cynnwys: tua 13ha o goetir newydd a phlannu 23 cilomedr o gloddiau, 30ha o laswelltir, ffensys gwrth-ddyfrgwn a chroesfannau diogel i ddyfrgwn ac ystlumod (fel cwlffertau bocs mawr, pibellau sych a chwlfertau â sarnau uwch). Byddai'r Cynllun hefyd yn gwella cynefinoedd trwy blannu blodau gwyllt ar hyd ymyl y ffordd, llethrau trychfeydd ac argloddiau.



## Nature Conservation

The Scheme is not anticipated to directly impact on any designated sites on a permanent basis. There is, however a potential effect on the Glynllifon SAC and the Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites and Gwydir Forest Mines SAC. There would be a direct effect on a number of habitats and protected species. The majority of these are considered to be of medium or lower value, and as a result the majority of predicted impacts are slight or moderate, both during the construction and operation of the Scheme. Habitats affected include: broadleaved woodland and scrub, hedgerows and streams. Protected species affected include: reptiles, nesting birds, bats, dormice and otters.

Mitigation measures would ensure that residual impacts on most of these receptors are avoided in the short and medium term, and that residual impacts on all ecological receptors are avoided in the long term.

Compliance with protected species licences and method statements would ensure impacts to protected species and habitats are avoided or reduced during the construction phase.

Long term mitigation provided by the Scheme would include: approximately 13ha replacement woodland and 23km of hedgerow planting, 30ha of grassland, otter resistant fencing and safe crossing points for otters and bats (such as large box culverts, dry pipes and culverts with raised ledges). The Scheme would also provide habitat enhancement through the planting of wild flowers along verges, cutting slopes and embankments.



## **Daeareg a Phriddoedd**

Gwnaed asesiad o'r effeithiau posibl ar ddaeareg, geomorffoleg a phriddoedd yn deillio o adeiladu a gweithredu'r Cynllun.

Er nad oes unrhyw Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol neu Safleoedd Daearegol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn y Cynllun, mae Safle Daearegol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safle Daearegol Pwysig Rhanbarthol yn agos iawn. Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu a gweithredu arfaethedig yn annhebygol iawn o effeithio ar y nodwedd hon. Mae tua 56ha o dir amaethyddol yn debygol o gael ei effeithio gan y Cynllun.

Yn ystod y gwaith adeiladu, dylai arferion gwaith da a mabwysiadu cynllun rheoli amgylcheddol leihau'r risg o stripio pridd ac effeithiau cysylltiedig.

Cadarnhaodd Ymchwiliad Tir 2015 mai prin yw'r halogiad sy'n bresennol ar hyd y Cynllun.

## **Geology and Soils**

An assessment has been made on the potential impacts on geology, geomorphology and soils arising from construction and operation of the Scheme.

Whilst there are no Regionally Important Geological Sites or geological SSSIs located within the Scheme, a geological SSSI and Regionally Important Geological Site is located in close proximity. However, the proposed construction and operation is very unlikely to impact upon this feature. Approximately 56ha of agricultural land is likely to be affected by the Scheme.

During construction works, good working practices and adoption of an environmental management plan should serve to reduce the risk of soil stripping and associated impacts.

The 2015 Ground Investigation confirmed that there is little contamination present along the Scheme.



*Golygfa nodweddiadol i Gaernarfon o Ynys Môn*

*Typical view to Caernarfon from Anglesey*

## **Deunyddiau**

Datblygwyd y Cynllun i sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng gweithgareddau gwrthgloddiau, i sicrhau y cynhyrchir cyn lleied o wastraff â phosibl a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff adeiladu fel agregau eilaidd. Byddai rheoli deunyddiau'n dda wrth adeiladu yn sicrhau bod gwastraff yn cael ei atal, ei ailddefnyddio a'i ailgylchu ac y byddai cyn lleied o waredu i safleoedd tirlenwi â phosibl.

Mae adeiladu'r Cynllun yn gofyn am lawer iawn o ddeunyddiau craidd a byddai'n cynhyrchu rhywfaint o wastraff.

## **Materials**

The Scheme has been developed to achieve an optimal balance between earthworks activities, minimise waste generated and maximise opportunities to recycle and re-use construction waste as secondary aggregates. Good management of materials during construction would ensure waste prevention, re-use and recycling and that disposal to landfill would be minimised.

The construction of the Scheme requires a large amount of raw materials and would generate some waste.

Y gwrthgloddiau yw swmp y gofynion o ran deunydd. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y byddai angen cyflenwi tua 24,461m<sup>3</sup> o ddeunydd llenwi o ffynonellau chwarel yn yr ardal leol. Fodd bynnag, byddai tua 642,730m<sup>3</sup> o ddeunydd llenwi yn dod o'r safle ac yn cael ei ddefnyddio yn y Cynllun. Byddai tua 160,010m<sup>3</sup> o ddeunydd llenwi anaddas yn cael ei symud oddi ar y safle i safle tirlenwi addas yn yr ardal leol.

Mae angen deunyddiau ychwanegol ar gyfer strwythurau newydd, arwyddion, ffensys a rhwystrau ar gyfer y Cynllun. Nid yw'r effaith ar y broses weithgynhyrchu wedi'i chynnwys yn yr asesiad hwn ac mae effeithiau posibl wedi'u cyfyngu i ddarpariaeth y deunyddiau i'r safle a'r sŵn a'r llygredd aer cysylltiedig ar dderbynyddion sensitif o gerbydau nwyddau trwm.

Ystyrir yn gyffredinol na fyddai effeithiau'r Cynllun arfaethedig o ran deunyddiau a gwastraff ddim mwy na mân, cyn belled ag y bo'r dyluniad manwl yn darparu ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau naturiol a bod cynllun rheoli'r gwaith adeiladu'n cael ei weithredu'n effeithlon. Ni ragwelir y bydd defnydd o ddeunyddiau yn ystod gweithrediad y Cynllun yn arbennig o andwyol.

### **Sŵn a Dirgryniad**

Yn ystod y gwaith adeiladu, byddai cyfyngiadau sŵn a dirgryniad a chyfnodau gweithio yn cael eu cytuno gydag Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd. Byddai cynllun rheoli amgylcheddol yn cael ei lunio gan nodi mesurau rheoli a lleihau i'w defnyddio ym mhob rhan o'r Cynllun. Gyda chamau lliniaru priodol, ni fyddai'r rhan fwyaf o eiddo yn dioddef sŵn neu ddirgryniad sylweddol, a byddai eiddo sydd wedi'i leoli'n agos iawn at weithfeydd yn cael eu hystyried yn ofalus. Byddai'r gweithgareddau mwyaf swnllyd yn gyfyngedig o ran eu hyd. Mae aflonyddwch yn ystod y nos o waith adeiladu yn annhebygol dros ben.

Byddai sŵn o'r Cynllun ar ôl ei gwblhau yn cael ei leihau gan ddefnyddio arwyneb sŵn isel drwyddi draw, ynghyd â thrychfeydd i sgrinio.

Mae manteision pellach rhwystrau sŵn wedi eu hasesu yn erbyn effeithiau amgylcheddol; megis effeithiau ar dirwedd ac ecoleg, yn ogystal â goblygiadau ehangach y cynllun o weithredu mesurau lliniaru o'r fath.

The bulk of the material requirements are for the earthworks. It is currently estimated that approximately 24,461m<sup>3</sup> of fill material would need to be supplied from quarry sources in the local region. However, approximately 642,730m<sup>3</sup> of fill, would be site-won and used within the Scheme. Approximately 160,010m<sup>3</sup> of unsuitable fill material would be exported offsite to a suitable landfill in the local region.

Additional materials are required for new structures, signage, fences and barriers for the Scheme. The impact on the manufacturing process is not included in this assessment and potential impacts are limited to the delivery of the materials to the site and the associated noise and air pollution on sensitive receptors from HGVs.

Overall, it is considered that the effects of the proposed Scheme in relation to materials and waste would be no more than minor, provided the detailed design provides for natural resource efficiency and the construction management plan is efficiently implemented. Materials usage during the operation of the Scheme is not predicted to be significantly adverse.

### **Noise and Vibration**

During construction, noise and vibration limits and working periods would be agreed with Gwynedd Council Planning Department. An environmental management plan would be devised specifying control and reduction measures to be employed at each section of the Scheme. With suitable mitigation, most properties would not be subjected to significant noise or vibration, and properties positioned very close to works would be carefully considered. The noisiest activities would be limited in duration. Night-time disturbances from construction are highly unlikely.

Noise from the completed Scheme would be reduced by using a low-noise surface throughout, together with cuttings to provide screening.

The further benefits of noise barriers have been assessed against environmental impacts; such as on landscape and ecology, and also the wider scheme implications of providing such mitigation.

Ystyrir bod effeithiau negyddol darparu rhwystrau sŵn yn drech na'r manteision, felly, nid oes dim yn cael eu cynnig fel rhan o'r Cynllun.

Byddai disgwyl i sawl eiddo preswyl ac eiddo sensitif arall elwa o ostyngiadau i sŵn a dirgryniad, yn bennaf oherwydd gostyngiadau i lif traffig trwy ganol Bontnewydd ac yng Nghaernarfon.

Disgwylir i bron i 900 o aelwydydd o ryw 6,000 a aseswyd brofi gostyngiad sylweddol mewn sŵn traffig o'r ffordd pan fydd y Cynllun yn agor. Mae'r Ardaloedd o Flaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio gweithredol ar sŵn wedi'u cynnwys yn yr ardaloedd sy'n debygol o weld gostyngiadau sylweddol i sŵn.

Gan fod camau lliniaru sŵn wedi eu cynnwys yn y Cynllun, disgwylir i ryw 290 o aelwydydd yn agos i'r Cynllun brofi cynnydd sylweddol mewn sŵn traffig o'r ffordd pan fydd y Cynllun yn agor. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw aelwyd yn profi lefelau sŵn gan draffig ffordd a fyddai'n cyfiawnhau cynnig statudol o insiwleiddio rhag sŵn o dan y Rheoliadau Insiwleiddio Rhag Sŵn.

### **Effeithiau ar bob Teithiwr**

Byddai'r Cynllun yn effeithio ar nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus o gwmpas Caernarfon a Bontnewydd. Byddai gwyriadau a chroesfannau dros dro yn cael eu darparu yn ystod y cam adeiladu ar gyfer pob Hawl Tramwy Cyhoeddus. Byddai cysylltedd gweithredol hirdymor yn cael ei ddarparu trwy nifer o drosbontydd, tanffyrdd a chroesfannau parhaol.

Pan fydd yn weithredol, byddai'r Cynllun yn lleihau traffig ar hyd yr A487 bresennol ac o'r tu mewn i Gaernarfon, Bontnewydd a'r aneddiadau cyfagos. Byddai hyn yn cael effaith fuddiol i drigolion yr aneddiadau hyn trwy leihau achosion o wahanu ardaloedd o bobtu'r ffordd a achosir gan draffig ffordd rhwng ardaloedd preswyl, cyfleusterau cymunedol a lleoedd gwaith.

O ran teithwyr mewn cerbydau, i grynhoi, byddai'r camau lliniaru o ran y dirwedd a gwrthgloddiau'r Cynllun yn arwain at goridor ffordd caeedig yn gyffredinol, ond gydag amrywiaeth o nodweddion ar ei hyd.

It is considered that the negative impacts of providing noise barriers outweigh the benefits achieved therefore none are proposed as part of the Scheme.

Many residential and other sensitive properties would be expected to benefit from decreases in noise and vibration, primarily due to reductions in traffic flows through the centre of Bontnewydd and within Caernarfon.

Nearly 900 properties of around 6,000 assessed are expected to experience significant road traffic noise reductions at Scheme opening. The Priority Areas identified by Welsh Government for noise action planning are included in the areas likely to see significant noise reductions.

With the noise mitigation built into the Scheme, around 290 properties located near to the Scheme are expected to experience significant increases in road traffic noise at Scheme opening. However, no properties are predicted to experience noise levels from road traffic that would justify a statutory offer of noise insulation under the Noise Insulation Regulations.

### **Effects on all Travellers**

The Scheme would affect a number of Public Rights of Way surrounding Caernarfon and Bontnewydd. Temporary diversions and crossing places would be provided during the construction phase for all Public Rights of Way. Long term operational connectivity would be provided via a number of overbridges, underpasses and permanent crossing places.

Once operational, the Scheme would reduce traffic along the existing A487 and from within Caernarfon, Bontnewydd and surrounding settlements. This would have a beneficial effect for residents of these settlements by reducing severance caused by road traffic between residential areas, community facilities and places of employment.

With regard to vehicle travellers, in summary the landscape mitigation and Scheme earthworks would result in a generally enclosed road corridor, but with a variety of characteristics along its length.



Byddai coetir a chloddiau a fyddai'n cael eu plannu yn rhywogaethau collddail brodorol yn bennaf ac felly byddai newidiadau tymhorol yn caniatáu golygfeydd wedi'u ffiltro i'r dirwedd y tu hwnt mewn mannau.

Byddai lefelau straen cynyddol ar yrwyr yn ystod y cyfnod adeiladu oherwydd tagfeydd wedi'u hachosi gan gamau rheoli traffig lleol, ond byddai'r rhain ar waith am gyfnodau byr yn unig.

Ar ôl ei roi ar waith, byddai'r Cynllun yn arwain at ostyngiad i lefelau straen gyrrwyr oherwydd llai o dagfeydd, ansawdd gwell arwyneb y ffordd a llai o rwystredigaeth ac ofn damweiniau.

### **Asedau Cymunedol a Phreifat**

Byddai'r Cynllun yn effeithio ar nifer o eiddo preifat a thir cysylltiedig, ond ni fyddai'n arwain at ddymchwel unrhyw adeiladau.

Ni fyddai unrhyw dir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad tai neu gyflogaeth o dan Gynllun Datblygu Unedol Mabwysiedig Gwynedd na Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau yn cael ei gaffael ar gyfer y Cynllun. Ni fyddai unrhyw Fannau Agored a Warchodir na Mannau Chwarae yn cael eu heffeithio gan y Cynllun.

Byddai'r busnesau canlynol yn cael eu heffeithio gan golled a gwahanu tir: Parc Gwyliau Glan Gwna, Dwyfor Oils Ltd a Fferm Solar Parciau. Byddai effeithiau hyn yn cael eu lliniaru trwy ddarparu iawndal, gwaith gwella neu newidiadau i mynediad lle'n berthnasol.

Mae llawer o'r tir sy'n cael ei effeithio gan y Cynllun wedi'i ddsbarthu fel tir amaethyddol Gradd 3 a 4, gyda rhywfaint o Radd 5 ar y Cynlluniau Dosbarthu Tir Amaethyddol rhagarweiniol cyhoeddedig. Oherwydd effeithiau hinsoddol, ni ellir cael unrhyw dir o ansawdd gwell na Gradd 2.

Byddai'r busnesau fferm canlynol yn cael eu gwahanu o bobtu'r ffordd: Fferm Tŷ Hen, Fferm Geufron, Fferm Dinas, Fferm Cefn Werthyd, Glanrafon Bach, Tyddyn Bach, Pengelli Isaf, Fferm Crug a Choed Mawr. Byddai camau lliniaru ar ffurf tanffyrdd, trosbontydd a mynediadau newydd yn cael eu darparu i ffermdir sydd wedi'i wahanu o bobtu'r ffordd lle y bo'n weithredol ddilys a chyfiawn.

Woodland and hedge planting would primarily be native deciduous species and therefore in places seasonal changes would allow filtered views to the landscape beyond.

During the construction phase there would be increased driver stress levels due to congestion caused by localised traffic management, but these would only operate for short durations.

The Scheme, once operational would result in a reduction in drivers' stress levels due to reduced congestion, enhanced surface quality and reduced frustration and fear of accidents.

### **Community and Private Assets**

The Scheme would affect a number of private properties and associated land, but would not result in the demolition of any buildings.

No land allocated for housing or employment development under the Adopted Gwynedd Unitary Development Plan or Deposit Joint Local Development would be acquired for the Scheme. No Protected Open Space or Play Areas would be affected by the Scheme.

The following businesses would be affected by land loss and severance: Glan Gwna Holiday Park, Dwyfor Oils Ltd and Parciau Solar Farm. The impacts of this would be mitigated by providing financial compensation, improvement works or changes to access where applicable.

Much of the land affected by the Scheme is classified as Grade 3 and 4 agricultural land, with some Grade 5 on the published provisional Agricultural Land Classification plans. Due to climatic impacts, there can be no land of better quality than Grade 2.

There would be severance to the following farm businesses: Ty-Hen Farm, Geufron Farm, Dinas Farm, Cefn Werthyd Farm, Glanrafon Bach, Tyddyn Bach, Pengelli Isaf, Crug Farm and Coed Mawr. Mitigation in the form of underpasses, over bridges and new accesses would be provided to severed farmland where physically and operationally feasible and justifiable.

## ***Draeniad Ffordd a'r Amgylchedd Dŵr***

Mae'r Cynllun wedi'i leoli mewn ardal sy'n cynnwys cyrsiau dŵr wyneb a safleoedd gwarchoddedig o bwysigrwydd mawr, cyrff dŵr daear ac ardaloedd o berygl llifogydd a nodwyd.

Cynhaliwyd asesiad o'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd dŵr yn deillio o adeiladu a gweithredu'r Cynllun. Cwblhawyd Asesiadau Canlyniadau Llifogydd a Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac maent wedi'u cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.

Datblygwyd strategaeth ddraenio ar gyfer y Cynllun. Mae hwn yn nodi egwyddorion cynllunio i reoli maint ac ansawdd y dŵr trwy gyflwyno camau lliniaru fel pantiau, rhwydweithiau o bibelli draenio, ffosydd draenio, ceuffosydd a phyllau arafu/triniaeth ar hyd y Cynllun.

Mae modelu llifogydd ar gyfer y croesfannau afon mwy yn dangos y byddai'r canlyniadau llifogydd i'r Cynllun yn dderbyniol ac na fyddai'r Cynllun yn cynyddu'r perygl o lifogydd yn sylweddol mewn mannau eraill. Cwblhawyd asesiadau ansoddol ar gyfer gweddill y Cynllun. Gyda chamau lliniaru, ni ddisgwylir i'r Cynllun arwain at gynnydd i lifogydd mewn mannau eraill ac ystyrir bod y perygl o lifogydd i'r Cynllun yn dderbyniol.

Disgwylir rhai effeithiau i ansawdd dŵr wrth adeiladu trwy ryddhau gwaddodion a halogion, o bosibl. Byddai'r effeithiau dros dro ac ni fyddent yn cael effaith hirdymor ar yr amgylchedd dŵr.

Byddai'r Cynllun yn cael rhai effeithiau ar ansawdd dŵr trwy sianelu cyrsiau dŵr llai. Mae'r camau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn nyluniad y Cynllun yn lleihau'r effeithiau hyn. Mae'r effeithiau'n lleol ac nid ydynt yn ddigonol i effeithio ar allu'r cyrff dŵr sy'n cael eu heffeithio i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Gyda chamau lliniaru, mae effeithiau'r Cynllun ar yr amgylchedd dŵr yn ddiwbys neu ychydig yn andwyol yn gyffredinol. Ystyrir bod y Cynllun yn cael effeithiau andwyol sylweddol (cymedrol neu waeth) ar ansawdd rhai o'r cyrsiau dŵr oherwydd gwaith yn y cyrsiau dŵr neu'n agos atynt wrth adeiladu ac effeithiau cwlfertau newydd.

## ***Road Drainage and the Water Environment***

The Scheme is located in an area that includes surface watercourses and protected sites of a high importance, groundwater bodies and areas of identified flood risk.

An assessment has been made of the potential impacts on the water environment arising from construction and operation of the Scheme. Flood Consequence and Water Framework Directive Assessments have been completed and are incorporated into the Environmental Statement.

A drainage strategy has been developed for the Scheme. This identifies the design principles to manage the quantity and quality of water through the introduction of mitigation measures such as swales, drainage pipe networks, drainage ditches, culverts and attenuation/treatment ponds along the length of the Scheme.

Flood modelling for the larger river crossings demonstrates that the flood consequences to the Scheme would be acceptable and the Scheme would not significantly increase flood risk elsewhere. Qualitative assessments have been completed for the remainder of the Scheme. With mitigation, the Scheme is not expected to lead to an increase in flooding elsewhere and flood risk to the Scheme is considered acceptable.

During construction some impacts to water quality are expected through release of sediments and potential release of contaminants. The impacts will be temporary and would not have a long term effect on the water environment.

The Scheme would have some impacts on water quality through culverting of smaller watercourses. The mitigation included in the Scheme design reduces these impacts. The impacts are localised and are not sufficient to affect the ability of the affected waterbodies to meet the requirements of the Water Framework Directive.

With mitigation, the effects of the Scheme on the water environment are generally negligible or slight adverse. The Scheme is considered to have significant (moderate or higher) adverse effects on the quality of a few of the watercourses due to works in or near the watercourses during construction and the effects of new culverts.

Mae arwyddocâd yr effeithiau o ganlyniad i bwysigrwydd y cyrsiau dŵr yn gyffredinol, yn hytrach na maint effaith y Cynllun.

## Crynodeb

Mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/y Datganiad Amgylcheddol wedi penderfynu y byddai rhai effeithiau ar yr amgylchedd lleol o ganlyniad i'r Cynllun. Pan fo effeithiau wedi'u nodi, mae'r rhain wedi cael eu lliniaru cyn belled â phosibl yn rhan o'r dyluniad. Datblygwyd y mesurau lliniaru mewn ymgynghoriad agos â'r Cyrff Amgylcheddol Statudol, tirfeddianwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Dyluniwyd y Cynllun gan ddilyn egwyddorion cynaliadwyedd a byddai'n sicrhau bod ei ôl troed carbon cyn lleied â phosibl ac yn ailddefnyddio'r holl ddeunyddiau sy'n cael eu cloddio yn y Cynllun.

Cymerwyd mesurau priodol i ddiogelu cyrsiau dŵr, gan gynnwys darparu strwythurau rhychwant clir, cwlfertau â gwelyau nentydd o fath mwy naturiol a dulliau i sicrhau bod y risg o lygredd cyn lleied â phosibl wrth adeiladu.

Gyda'i gilydd, dyluniwyd y mesurau lliniaru i adlewyrchu cymeriad tirwedd yr ardal, gan ddarparu ar gyfer sgrinio gweledol a lliniaru a gwelliant ecolegol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol hefyd wedi ystyried effeithiau cronol y Cynllun ar y cyd â datblygiadau mawr arfaethedig yng Nghaernarfon a'r cyffiniau. Ni fyddai'r effeithiau amgylcheddol o'r cynigion a aseswyd yn cael effaith gronnol arwyddocaol yn sgil y Cynllun.

The significance of effects is generally a result of the importance of the watercourses rather than the magnitude of the effect of the Scheme.

## Summary

The EIA/ES has determined that there would be some impacts on the local environment as a result of the Scheme. Where impacts have been identified these have been mitigated as far as possible as part of the design. The mitigation measures have been developed in close consultation with the Statutory Environmental Bodies, landowners and other key stakeholders.

The Scheme has been designed following the principles of sustainability and would minimise its carbon footprint and reuse all excavated materials within the Scheme.

Appropriate measures have been taken to protect watercourses including the provision of clear-span structures, culverts with more natural type stream beds and methods to minimise pollution risks during construction.

Collectively the mitigation measures have been designed to reflect the landscape character of the area, providing for both visual screening and ecological mitigation and enhancement.

The ES has also considered the cumulative effects of the Scheme in association with proposed major developments in Caernarfon and the surrounding area. The environmental impacts from the proposals assessed would not have a significant cumulative effect with the Scheme.

## Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd unrhyw sylwadau i ystyriaeth cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r Cynllun ai peidio, gyda neu heb addasiadau.

Yn dibynnu ar natur a nifer unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau a dderbynnir i'r Gorchmynion drafft cyhoeddedig, efallai y caiff Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol ei gynnal gerbron Arolygydd annibynnol.

Os caiff Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol ei gynnal, byddai pawb sydd wedi ymateb fel rheol yn cael eu hysbysu o fewn 4 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu a'r Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 22 wythnos o'r hysbysiad hwnnw. Byddai manylion llawn yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael eu cadarnhau a hysbysiadau'n ymddangos yn y wasg leol.

Byddai angen copio'r holl ohebiaeth i'r Arolygydd a'i chadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad, sydd ar gael i'r cyhoedd. Byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i unrhyw gynig amgen ymarferol arall a dderbynnir o fewn terfyn amser i'w nodi yn yr Hysbysiad o'r Ymchwiliad Cyhoeddus.

Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bwrw ymlaen â'r Cynllun y cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol ar ei gyfer, yna mae'n rhaid iddynt gyhoeddi gwybodaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Prifffyrdd (Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol) 2007, y sylwadau a dderbynnir ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad.

## What Happens Next?

The Welsh Ministers will take into consideration any representations before deciding whether or not to proceed with the Scheme, with or without modifications.

Depending on the nature and number of any objections and comments received to the published draft Orders, a Public Local Inquiry may be held before an independent Inspector.

If a Public Local Inquiry is to be held, all those who have responded would normally be notified within 4 weeks of the end of the objection period and the Inquiry held within 22 weeks of that notification. Full details of the Public Inquiry would be confirmed and notices would appear in the local press.

All correspondence would be copied to the Inspector and kept in the Inquiry Library which is available to the public. Publicity would be given to any feasible alternative proposal received with a time limit to be specified in the Public Inquiry Notice.

If the Welsh Ministers decide to proceed with the Scheme for which the ES has been published, they then must publish information about the consultation carried out, in compliance with The Highways (Environmental Impact Assessment) Regulations 2007, the representations received and any changes made as a result.



## Linell Amser y Cynllun

Penodi contractwr	Cyhoeddi cynlluniau yn dangos y gofynion tir (Gorchmynion Drafft)	Dechrau'r dyluniad manwl	Cwblhau'r adeiladu	Cwblhau
Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus	Arddangosfeydd Gorchmynion Drafft			
↓	↓			
Datblygu, cynllunio a diweddarau Datganiad Amgylcheddol	Proses statudol ac ymchwiliad cyhoeddus os bydd eu hangen	Dyluniad manwl ac Adeiladu	Ôl-ofal 5 Mlynedd	
Rhagfyr 2014	Awst 2016	Haf 2017	Haf 2020	Haf 2025

## Scheme Time Line

Contractor Appointed	Publish plans showing land requirements (Draft Orders)	Start detailed design	Construction Completion	Completion
Public Information Exhibitions	Draft Orders Exhibitions			
↓	↓			
Develop design and update Environmental Statement	Statutory process and public inquiry if required	Detailed Design and Construction	5 Year Aftercare	
December 2014	August 2016	Summer 2017	Summer 2020	Summer 2025

## Eich Barn

Os byddwch yn dymuno cefnogi neu wrthwynebu'r Gorchmwynion drafft neu'r Gorchmyn Prynu Gorfodol, neu wneud sylwadau arnynt neu wneud cynigion amgen, neu wneud sylw ar y Datganiad Amgylcheddol, dylech ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod.

**Y Gangen Gorchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru,  
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

Dylid anfon yr holl ohebiaeth o'r fath i gyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn diwedd y cyfnod a nodir yn yr Hysbysiad Cyhoeddus fan bellaf.

## Your Views

If you wish to support, comment or object to the draft Orders or Compulsory Purchase Order (CPO), put forward alternative proposals, or comment on the Environmental Statement you should write to the Welsh Government at the address below.

**Orders Branch, Transport,  
Welsh Government, Cathays Park,  
Cardiff CF10 3NQ.**

All such correspondence should be sent to arrive at the above address no later than the end of the period set out in the Public Notice.

## Allwedd (ar gyfer y cynllun a ddangosir gyferbyn)

## Key (for plan shown opposite)

Ar Arglawdd		On Embankment
Mewn Doriad		In Cutting
System Atal Cerbydau		Vehicle Restraint System
Pwll Gwanhad		Attenuation Pond
Ffensys Postyn a Gwifren Cadw Stoc		Post and Wire Stockproof Fencing
Ffens Derfyn Priffordd		Highway Boundary Fencing
Ffens Amgylcheddol		Environmental Fencing
Ardal o graig â phridd wedi'i osod i annog aildyfiant naturiol		Area of rock with retained soils placed to encourage natural regeneration
Coetir Presennol		Existing Woodland
Gwrychoedd Presennol		Existing Hedgerow
Llystyfiant Presennol a Gedwir		Retained Existing Vegetation
Coetir Frodorol		Native Woodland
Gwrychoedd Frodorol		Native Hedgerow
Coed Unigol		Individual Trees
Ardaloedd o rhywogaethau glaswelltir cyfoethog ac yn eithrio: ymylnog, cylchfan a lleiniau gwledded		Areas of species rich grassland excluding: verges, roundabout and visibility splays
Hawl Tramwy Cyhoeddus Presennol		Existing Public Right of Way
Llwybr Beicio Cenedlaethol Presennol		Existing National Cycle Network
Hawl Tramwy Cyhoeddus wedi Ddargyfeirio		Diverted Public Right of Way
Mynedfeydd Preifat		Private Means of Access



**FFORDD OSGOI A487  
CAERNARFON A  
BONTNEWYDD**

Crynodeb Annhechnegol  
Datganiad Amgylcheddol

Awst 2016

**A487 CAERNARFON  
AND BONTNEWYDD  
BYPASS**

Environmental Statement  
Non-Technical Summary

August 2016